





# Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003

## CRYNODEB

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid - Adroddiad 1

DYSGU ac ADDYSGU CYMRU
ELWa
EDUCATION and LEARNING WALES

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

# AROLWG CENEDLAETHOL O FODDHAD Y DYSGWYR YNG NGHYMRU- 2003

Hawlfraint ELWa Awst 2004 - Cyhoeddwyd gan ELWa. Caniateir atgynhyrchu rhannau o'r cyhoeddiad hwn am resymau hyfforddiant neu addysgiadol nad yw yn fasnachol, ar yr amod na chamliwir y ffeithiau a chydnabyddir y ffynhonnell. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurf electronig ar wefan ELWa - www.elwa.org.uk

Rhif ISBN: 1-85949-244-4



NOP World
United Business Media

Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP y byd, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil fwyaf yn y byd.

Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP sydd wedi'i rannu yn adrannau arbenigol. Mae'r tîm sy'n gweithio ar Arolwg Cenedlaethol Bodlonrwydd Dysgwyr i Gymru 2003 yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Gymdeithasol a mae 20 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil gymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.

Canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003

# RHAGAIR Y CADEIRYDD gan Sheila Drury



**Wrth i ELWa symud ymlaen â'i agenda moderneiddio uchelgeisiol ar gyfer dysgu ôl-16 rydym yn deall bod dysgwyr yn ganolog ym mhopeth a wnawn.**

Dyma'r rheswm pam yr ydym yn gwneud rhaglen ymchwilio enfawr drwy ein Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer, fydd yn helpu i roi gwybod i ni beth yw anghenion y dysgwyr a beth sy'n creu boddhad ymysg y dysgwyr gyda'r dysgu a ariannwn. Bydd hefyd yn ein helpu i ddeall agweddau tuag at ddysgu ymysg unigolion a busnesau a'r ffactorau sy'n eu cymell nhw i ddysgu. Bydd yr wybodaeth yma'n hanfodol i alluogi ELWa a'i bartneriaid i ehangu a dyfnhau cyfranogaeth pobl mewn dysgu, ac i beri bod ansawdd y dysgu a ariannwn yn codi.

Mae'n bleser mawr gen i gyflwyno'r adroddiad o ganfyddiadau cyntaf un o linynnau allweddol ein Strategaeth Ymchwilio'r Cwsmer, yr Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru. Mae'r adroddiad yma'n amlinellu barn mwy na 6,000 o ddysgwyr sy'n gwneud amrediad o gyrsiau wedi'u cyllido gan ELWa yn cynnwys Addysg Bellach, Rhaglenni Dysgu yn y Gwaith ac Addysg Barhaus Oedolion wedi'i achredu.

Aethom ati i ofyn i'r dysgwyr beth oedd eu disgwyliadau am y dysgu o flaen llaw, beth yw eu barn am y ddarpariaeth maent wedi'i dewis ac ansawdd y dysgu maent wedi'i gael, yn ogystal â'u barn am y cyngor a'r arweiniad maent wedi'i dderbyn, ansawdd yr adnoddau a'r gefnogaeth, a'u barn am y ffordd maen nhw wedi elwa o'r dysgu neu y gallent elwa o'r dysgu yn y dyfodol.

Mae'r canlyniadau'n dangos lefelau uchel iawn o foddhad gyda'r ddarpariaeth dysgu a dylid dathlu hynny. Mae'r gwaith ymchwil wedi dangos y pethau allweddol sy'n creu boddhad gyda dysgu ac yn amlygu topigau i'w harchwilio ymhellach a meysydd datblygu polisïau yn cynnwys datblygiad y cwricwlwm ac arddulliau dysgu. Bydd y rhain yn helpu ELWa i wella ansawdd y ddarpariaeth y mae'n ei chyllido. Rydym yn cynllunio rhaglen o weithgareddau i ymgynghori ymhellach â'r dysgwyr a'r sector dysgu er mwyn edrych yn agosach ar rai o'r materion yma a datblygu ffyrdd o rannu ymarferion gorau a gwneud gwelliannau.

Wrth gynllunio a gwneud y gwaith ymchwil yma rydym wedi ymgynghori â nifer o bartneriaid allweddol, a hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth - yn arbennig y cynrychiolwyr ar Bwyllgor Sicrhau Ansawdd ELWa a weithredodd fel Grŵp llywio prosiect allanol. Hefyd, hoffwn ddiolch i'r NOP, a wnaeth y gwaith ymchwil.

Bwysicaf oll, hoffwn ddiolch i'r miloedd o ddysgwyr a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil, gan gyfrannu eu sylwadau gwerthfawr er mwyn i ni allu gwella cyfleoedd dysgu yn y dyfodol i sicrhau bod dysgu'n gweithio' yng Nghymru.

**Sheila Drury** – Cadeirydd
Awst 2004.

**Canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003**

# ADDYSG BELLACH

> ‘ MAE'R MWYAFRIF O DDYSGWYR YN ASTUDIO YN Y COLEG OEDD YN DDEWIS CYNTAF GANDDYNT AC YN DILYN Y CWRS/HYFFORDDIANT OEDD YN DDEWIS CYNTAF GANDDYNT ’







## 01 Cyflwyniad a Chefndir

Mae cwsmeriaid ELWa'n cynnwys yr holl ddysgwyr presennol a'r rhai posibl yn y dyfodol - sef pob unigolyn, busnes a chymuned ar draws Cymru. Mae'r gwaith ymchwil hwn i foddhad dysgwyr yn ffurfio rhan o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ELWa sy'n rhan o'r ymgyrch cyffredinol o fewn ELWa i:

- annog polisi ar sail tystiolaeth a chynllunio galw ganolog
- sicrhau bod y 'cwsmer' yng nghanol y llwyfan.

**02** Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003 yw'r elfen gyntaf o'r Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid a'i brif nodau oedd:

- cael mesurau o foddhad dysgwyr mewn darpariaeth a noddir gan ELWa ar draws Cymru;
- sefydlu meincnodau a fydd yn dangos tueddiadau boddhad dysgwyr wrth ddilyn eu llwybrau dros amser; ac amlygu blaenoriaethau gweithredu.

**03** Mae'r arolwg hwn yn cynnwys dros 6,000 o gyfweliadau ffôn gyda dysgwyr mewn Addysg Bellach (FE), Dysgu yn y Gwaith (WBL) ac Addysg achredig Barhaus i Oedolion (ACE). Nid yw disgyblion chweched dosbarth wedi'u cynnwys yn yr arolwg hwn oherwydd bod y fethodoleg wedi'i hystyried yn anaddas. Felly, cynhaliwyd darn o waith arwahân ond cymaradwy yn cynnwys grwpiau ffocws mewn wyth ysgol a holiadur i'w gwblhau'n bersonol i dros 5,700 o ddisgyblion Blynyddoedd 12 ac 13 ar draws Cymru.

## 04 Methodology

Cynhaliwyd yr arolwg drwy gyfweliadau ffôn oedd yn para tua 20 munud. Cynhaliwyd y cyfweliadau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst 2003 cyn cyhoeddi canlyniadau arholiadau. Cynhaliwyd y cyfweliadau canlynol:

| Cyfweliadau a gynhaliwyd | |
|---|---|
| Addysg Bellach | 4,707 |
| Dysgu yn y Gwaith | 1,000 |
| Addysg achredig Barhaus i Oedolion | 508 |

**05** Mae'r pynciau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol Boddhad Dysgwyr yn gorgyffwrdd gydag arolwg Dosbarthiadau Chwech Ysgolion. Lluniwyd y gorgyffwrdd hwn i sicrhau y byddai'r canlyniadau'n gymaradwy. Fodd bynnag, mae defnyddio gwahanol fethodolegau ar gyfer y ddau arolwg yn golygu y dylid bod yn wyliadwrus wrth wneud cymhariaeth uniongyrchol

## 06 Addysg Bellach (FE)

Canfyddiad positif iawn a gafwyd yw bod saith ymhob deg o ddysgwyr mewn Addysg Bellach yn eithriadol fodlon, neu'n fodlon iawn, gyda'u profiad dysgu. Mae'r lefel yma o foddhad yn uwch na'r lefel a fesurwyd yn yr arolwg o Foddhad y Dysgwr yn Lloegr lle dywedodd 63% o'r dysgwyr mewn AB eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn.

**07** Mae'r dysgwyr a roddodd atebion sy'n awgrymu eu bod yn anfodlon yn ddysgwyr ifanc gan fwyaf (rheini sy'n iau na 25 oed) ac yn ddynion ifainc fwy na neb. Ond, hyd yn oed ymysg y grwpiau yma, ychydig iawn ohonynt sy'n dweud yn blwmp ac yn blaen eu bod yn anfodlon. Yn lle gwneud hynny, maen nhw'n dewis yr ateb: 'gweddol fodlon'. Yn asesiad y dysgwyr eu hunain, mae'r lefelau isel o foddhad yn deillio gan fwyaf o sefyllfa lle nad yw'r dysgu'n cyfateb â'u disgwyliadau, lle mae safonau'r dysgu'n isel a lle mae diffyg trefn ar ran y darparydd. Mae dadansoddiad ystadegol a ddefnyddiwyd i ganfod pa bethau sy'n achosi boddhad/anfodlonrwydd yn cefnogi hyn. Roedd y broses yma'n gofyn olrhain y gydberthynas rhwng barn dysgwyr am wahanol elfennau o'r profiad dysgu a pha mor fodlon ydyn nhw yn gyffredinol.

**08** Mae'r dadansoddiad yma'n dangos fod y pwysau canlynol yn berthnasol i'r ffactorau amrywiol sy'n dylanwadu ar foddhad ymysg dysgwyr FE.

### Tabl 1: Dylanwad cymharol y gwanhanol elfennau o'r profiad dysgu ar foddhad y dysgwr

| | % |
|---|---|
| Dysgu | 37 |
| Rheolaeth | 31 |
| Cynghori//Cyfleusterau Gofal Plant | 10 |
| Gwneud y Dewis Cywir | 8 |
| Adnoddau Dysgu | 7 |
| Adnoddau Eraill | 7 |

Nodwch: Nid ydym yn dangos yr atebion 'Nid wyf yn gwybod' a gawsom

## 09 Boddhad gyda dysgu

O ystyried fod ffactorau sy'n ymwneud â dysgu yn cael y dylanwad mwyaf ar foddhad, mae'n galonogol canfod bod mwy na 90% o ddysgwyr FE yn nodi rhyw radd o foddhad (naill ai yn weddol fodlon, yn fodlon iawn neu'n eithriadol fodlon) a dim ond 5% fynegodd unrhyw lefel o anfodlonrwydd. Mae hyn yn dystiolaeth gref o sgiliau a phroffesiynoldeb y staff dysgu o fewn y sector dysgu ôl-16.

**10** Y dangosyddion yn ymwneud â pherfformiad athrawon/hyfforddwyr a gafodd y sgôr uchaf yw'r sgiliau dysgu craidd yma: 'y gallu i esbonio'r pwnc', 'yn gwrando ar eich anghenion' ac 'yn gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn hwyl'. Y dangosyddion a gafodd y sgôr isaf oedd 'gosod targedau' (gyda 39% yn rhoi'r marciau uchaf o 9 neu 10 am hyn) ac 'eich deall chi a sut yr ydych yn hoffi dysgu' (40%).

**11** Mae'r grid isod yn plotio gwahanol elfennau dysgu gan ddangos pa mor bwysig ydyn nhw i greu boddhad a beth oedd barn y dysgwyr am berfformiad mewn perthynas â'r ffactorau yma. Felly, mae'r cwadrant uchaf ar yr ochr chwith (y cwadrant gweithredu) yn dangos y ffactorau hynny sy'n weddol uchel o ran eu pwysigrwydd ond sydd wedi derbyn sgôr gweddol isel am berfformiad.

Canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003

## ADDYSG BELLACH


> MAE YCHYDIG YN LLAI NA THRAEAN O'R DYSGWYR I GYD YN DWEUD EU BOD WEDI CAEL Y CYFLE I WNEUD RHAN O'U DYSGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG







### Siart 1 Blaenoriaethau Gweithredu - Boddhad gydag Ansawdd Addysgu o fewn FE




Nodyn: Mae'r echelin ar y grid wedi'i adeiladu o amgylch y sgorau a roddwyd. Felly, nid ydynt yn cychwyn ar sero. Nid oes sgorau boddhad cymedrig sy'n is na 7 allan o 10 a dim sgôr cymedrig am bwysigrwydd yn is na 5

### Y targedau ar gyfer gweithredu

Mae'r ffactorau sy'n ymddangos yn y cwadrant gweithredu yn gysylltiedig gan fwyaf â rheoli'r broses ddysgu:

- Cefnogaeth
- Adborth
- Gosod targedau
- Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu

Mae'r rhain, ynghyd â 'gwneud defnydd da o amser y gwersi', yn nodweddion sy'n ymddangos yn isel eu sgôr yn arbennig gan y dynion ifainc, a dylai targedu'r meysydd yma drwy roi darpariad mwy trwyadl i'r dysgwyr hyn helpu i'w gwneud yn fwy bodlon.

### Ffactorau rheolaeth

12 Mewn perthynas â ffactorau rheolaeth a gweinyddiad, mae'r dysgwyr FE yn rhoi sgôr is am berfformiad yn y meysydd trefnu ac adnoddau e.e. hygyrchedd yr athrawon ac amserlennu. Maen nhw'n rhoi sgôr uwch i'r gefnogaeth gychwynnol a pharhaus a gânt.

13 Mae'n amlwg o ddarllen sylwadau'r dysgwyr bod mynd i wers sydd wedi'i ganslo neu sydd wedi'i symud yn rhywbeth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n rhwystredig ac maen nhw'n teimlo bod hyn yn arwydd o ddiffyg parch ar ran y tiwtor neu'r coleg. Unwaith eto, y dysgwyr iau sy'n fwyaf beirniadol o hyn yn gyffredinol. Mae hyn naill ai'n dangos eu bod nhw'n gorfod dioddef mwy o ddiffyg cyfathrebiad neu brinder adnoddau yn gyffredinol, neu fod y dysgwyr hŷn yn fwy goddefgar o broblemau fel hyn.

### Y targedau ar gyfer gweithredu yw

- Rheoli amserlenni fel eu bod yn addas i'r dysgwr
- Rhoi gwybod am unrhyw newidiadau yn amseroedd y gwersi
- Sicrhau bod digon o athrawon/tiwtoriaid ar gael

### Gwneud y dewis cywir

14 Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn astudio yn y coleg oedd yn ddewis cyntaf ganddynt ac yn dilyn y cwrs/hyfforddiant oedd yn ddewis cyntaf ganddynt. Mae llwyddo i sicrhau'r darparydd/cwrs oedd yn ddewis cyntaf gan ddysgwyr yn dylanwadu ar eich foddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu. Wrth i'r gyfran o ddysgwyr sy'n dweud eu bod yn astudio yn y coleg oedd yn ddewis cyntaf ganddynt ostwng, mae'r boddhad yn lleihau hefyd. Ymysg y dysgwyr FE, dyma'r grwpiau sy'n lleiaf tebygol o fod wedi sicrhau eu dewis cyntaf:

- pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru
- dynion 19-24 oed
- pobl sy'n gwneud cyrsiau peirianneg/gweithgynhyrchu neu astudiaethau busnes

15 Mae'r ffaith fod lleoliad y sefydliad yn gyfleus yn elfen allweddol i bobl wrth iddynt ddewis darparydd. Yr ail ffactor yw bod y sefydliad yn cynnig yr hyfforddiant y mae'r ymgeisydd ei eisiau, ond dim ond lleiafswm o'r dysgwyr sy'n crybwyll materion fel enw da ac ansawdd. Mae hyn yn cadarnhau, felly, bod y ffaith fod coleg yn agos i'w cartrefi yn gryfach, yn gyffredinol, na'r ffactorau eraill.

16 Mae'r patrymau ceisio cyngor yn amrywio yn ôl oedran: mae'r bobl 16-18 oed yn fwy tebygol o dderbyn cyngor na dysgwyr hŷn ac i ymgynghori ag amrywiaeth o ffynonellau. Fel y byddem yn ei ddisgwyl, mae'r dysgwyr iau yn defnyddio llawer ar staff yr ysgol neu staff Gyrfa Cymru. Er bod y rhain yn ddefnyddiol yn eu barn nhw, maen nhw'n tueddu i deimlo bod y cyngor a gânt gan y sefydliad y maen nhw'n mynd iddo yn fwy gwerthfawr h.y. y staff yn y coleg y maen nhw'n astudio ynddo neu'r cyflogwr y maent yn gweithio iddo. Efallai mai'r rheswm am hyn yw eu bod nhw'n gallu cynnig mwy o wybodaeth am gynnwys y cwrs/yr hyfforddiant.

17 Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y mwyafrif o ddysgwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'u cyrsiau cyn cychwyn. Mae'r agweddau sy'n achosi'r ansicrwydd mwyaf yn ymwneud â faint o ddyddiadau cwblhau sydd yn rhan o'r cwrs, faint o gyfrifoldeb y mae'n rhaid i ddysgwyr ei gymryd a'r math o bobl fydd ar y cwrs. Mae'r ddau gyntaf o'r rhain ymysg y ffactorau sydd fwyaf tebygol o achosi anawsterau i bobl yn ystod eu cyrsiau neu hyfforddiant. Felly, efallai y byddai hi'n syniad i ymdrin â hyn pan fo'r dysgwr yn ceisio gwybodaeth a chyngor ar y dechrau. Gellid defnyddio dull megis 'wythnos ym mywyd...' gan amlygu rhai o'r ffyrdd mae cyrsiau, bywyd y cartref ac ymrwymiadau

# DYSGU YN Y GWAITH

"CANFYDDIAD POSITIF IAWN A GAFWYD YW BOD SAITH YMHOB DEG O DDYSGWYR MEWN ADDYSG BELLACH YN EITHRIADOL FODLON, NEU'N FODLON IAWN, GYDA'U PROFIAD DYSGU"







### Y targedau ar gyfer gweithredu

Y targed ar gyfer gweithredu yw gwella gwerth y cyngor a dderbynnir. O gymryd bod colegau a darparwyr yn gyffredinol yn derbyn sgôr uwch, dylai gweithredu o'r fath ganolbwyntio fwyaf ar annog y dysgwyr i sicrhau manylion mwy penodol am gynnwys a ffurf y cyrsiau yn uniongyrchol gan y cyrff yma.

## 18 Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Dywedodd oddeutu 1 ymhob 10 o'r dysgwyr a gyfwelwyd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl a'u bod yn delio â Chymraeg ysgrifenedig yn hyderus.

**19** Mae ychydig yn llai na thraean o'r dysgwyr i gyd yn dweud eu bod wedi cael y cyfle i wneud rhan o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond, dim ond lleiafrif bach (llai nag 1 ymhob 10) sydd eisiau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd oddeutu chwarter y dysgwyr FE wedi cael rhyw elfen o waith drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cyrsiau.

### Y targedau ar gyfer gweithredu

Y targed i'w weithredu ar gyfer ELWa a'i bartneriaid allweddol yn y sector dysgu a sgiliau yw bwydo canlyniadau'r gwaith ymchwil yma i'w cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer datblygu a hyrwyddo cyflenwad y ddarpariaeth iaith Gymraeg.

## 20 Adnoddau

Yn gyffredinol, mae'r graddau a roddwyd i adnoddau'n is na'r graddau a gafwyd am safonau dysgu. Adnoddau craidd, mewn perthynas â dysgu e.e. adnoddau technoleg gwybodaeth, llyfrgelloedd a gwasanaethau cefnogi dysgu yw'r adnoddau a dderbyniodd y graddau uchaf mewn FE. Yr adnoddau gafodd y graddau isaf yw'r ffreutur a'r cyfleusterau ar gyfer cymdeithasu. Gallem ddadlau bod y rhain yn berifferol i'r broses o ddysgu, ond mae manteision cymdeithasol dysgu yn bwysig i ddysgwyr felly efallai bod angen adolygu'r maes yma.

### Y targedau ar gyfer gweithredu

- Adnoddau a ddarperir ar gyfer cymdeithasu gyda dysgwyr eraill
- Y ffreutur/caffi
- Adnoddau/offer chwaraeon
- Adnoddau/offer arbenigol eraill sy'n berthnasol i'ch cwrs

## 21 Dysgu yn y Gwaith (WBL)

Mae dysgwyr sy'n dysgu yn y gwaith yn dangos lefelau tebyg o foddhad gyda'u profiad dysgu i'r lefelau a fynegwyd gan ddysgwyr FE, gyda saith ymhob deg yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn.

**22** Mae boddhad 'eithriadol' yn fwy tebygol ymysg merched, ond mae oedran yn ffactor dylanwadol hefyd. Merched yn y grŵp oedran 19+ sydd fwyaf tebygol o fod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn, a'r dynion yn yr un grŵp yw'r lleiaf tebygol o nodi'r lefel yma o foddhad.

**23** Mae'r rhesymau am yr anfodlonrwydd yn ymwneud gan fwyaf â'r ffaith nad yw'r profiad yn cyfateb â'r hyn yr oedd yr ymatebwr yn ei ddisgwyl.

**24** Mae dysgwyr WBL yn teimlo bod eu dysgu wedi chwarae rhan bwysig yn eu cais i gyrraedd eu targedau gwaith/gyrfaol.

**25** Gofynnwyd i'r dysgwyr WBL oedd yn gyflogedig ar amser eu cyfweliad ynghylch pa mor berthnasol yw eu hyfforddiant a pha mor ddefnyddiol ydyw yn nhermau eu swydd gyfredol. Roedd y mwyafrif yn teimlo bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol berthnasol i'w swyddi (87%), tra bo 66% yn teimlo bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn ac roedd 29% yn teimlo ei fod yn weddol ddefnyddiol.

**26** Mae'r elfennau sy'n dylanwadu ar foddhad y dysgwyr WBL yn debyg i'r rheini ar gyfer dysgwyr FE am fod ffactorau dysgu a rheolaeth yn hollbwysig yn y ddau gategori. Pan fo dysgwyr WBL yn astudio mewn coleg neu sefydliad hyfforddi, fodd bynnag, mae adnoddau cymdeithasol yn dod yn fwy pwysig:

### Tabl 2: Dylanwad cymharol y gwanhanol elfennau o'r profiad dysgu ar foddhad y dysgwr

| | % |
|---|---|
| Dysgu/hyfforddiant | 41 |
| Rheolaeth | 29 |
| Adnoddau Gofal Plant/Cynghori | 10 |
| Adnoddau Eraill | 3 |
| Adnoddau Cymdeithasol | 12 |
| Adnoddau Technoleg Gwybodaeth | 6 |

Nodwch: Nid ydym yn dangos yr atebion 'Nid wyf yn gwybod' a gawsom

## 27 Boddhad gyda dysgu

Yn gyffredinol, mae boddhad y dysgwr gyda'r hyfforddwyr/aseswyr yn uchel, ond mae dynion yn llai tueddol o fod yn fodlon (yn arbennig dynion 19+). Fel grŵp, mae'r merched yn rhoi sgôr uwch i hyfforddwyr/aseswyr ond mae'r merched 19+ ychydig yn llai bodlon na'r merched 16-18 oed.

Canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003

# DYSGU YN Y GWAITH

‘DYSGWYR WBL OEDD Y MWYAF TEBYGOL O FOD WEDI DERBYN Y CYFLE I WNEUD RHYWFAINT O'U DYSGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG’








**28** O edrych ar foddhad o'i gymharu â phwysigrwydd, dyma'r darlun:

### Siart 2 Blaenoriaethau Gweithredu – Boddhad gyda Ansawdd Addysgu o fewn (WBL)




Nodyn: Mae'r echelin ar y grid wedi'i adeiladu o amgylch y sgorau a roddwyd. Felly, nid ydynt yn cychwyn ar sero. Nid oes sgorau boddhad cymedrig sy'n is na 7 allan o 10 ac nid oes unrhyw sgôr cymedrig am bwysigrwydd sy'n is na 5

### Y targedau ar gyfer gweithredu

Gan fwyaf, mae'r ffactorau sy'n ymddangos yn y cwadrant gweithredu yn gysylltiedig â rheoli'r broses ddysgu:

- Cefnogi
- Defnyddio amser y sesiynau yn dda
- Adborth
- Gosod targedau
- Eich deall chi a sut yr ydych yn hoffi dysgu

Mae cefnogaeth ac adborth yn faterion arbennig ar gyfer dynion 19+ oed.

## 29 Ffactorau rheolaeth

Mae colegau yn derbyn graddau is am reoli rhaglenni WBL na darparwyr hyfforddiant neu ddarpariaeth yn y gweithle. Mae amserlennu a rhoi gwybod i'r myfyrwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi yn wendid arbennig mewn colegau. Unwaith eto, y dynion 19+ oed yw'r grŵp mwyaf beirniadol.

### Y targedau ar gyfer gweithredu

- Rheoli amserlenni fel eu bod yn addas i'r dysgwr
- Rhoi gwybod i'r dysgwyr am newidiadau yn amseroedd y gwersi
- Sicrhau fod digon o athrawon/tiwtoriaid ar gael

## 30 Gwneud y dewis cywir

Mae dysgwyr WBL yn llai tebygol na'r dysgwyr sy'n derbyn mathau eraill o ddarpariaeth o ddeall bod ganddynt ddewis o ddarparydd neu raglen hyfforddiant. Maen nhw'n llawer mwy tebygol na dysgwyr eraill i ofyn am gyngor gan gyflogwyr a gan Gyrfa Cymru, ac i'r graddau yma, mae rhai yn teimlo bod eu cyflogwyr wedi gwneud y dewis ar eu rhan. Mae'n ymddangos mai'r dysgwyr WBL oedd â'r disgwyliadau mwyaf eglur o unrhyw grŵp o ddysgwyr mewn perthynas â'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl gan eu rhaglenni dysgu.

### Y targedau ar gyfer gweithredu

O gymryd bod dysgwyr Dysgu yn y Gwaith wedi'u dylanwadu'n gryf, ac i ryw raddau wedi'u cyfyngu yn eu dewisiadau, gan eu cyflogwr, y targed ar gyfer gweithredu yw bod ELWa a phartneriaid allweddol yn cynnal trafodaeth gyda chyflogwyr am:

- Pa mor briodol i anghenion y dysgwr yw'r cyrsiau a gynigir
- Yr ymarfer gorau o ran rheoli disgwyliadau'r dysgwyr am yr hyn y gall y cwrs ei gynnig

## 31 Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Dysgwyr WBL oedd y mwyaf tebygol o fod wedi derbyn y cyfle i wneud rhywfaint o'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (35%, yn cynyddu i 53% yng Ngogledd Cymru) ac mae gan 37% ohonynt ryw elfen o leiaf o gyfrwng Cymraeg yn eu cyrsiau.

Dywedodd ychydig yn is nag 1 ymhob 10 o ddysgwyr WBL (8%) bod yn well ganddynt ddysgu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

### Y targedau ar gyfer gweithredu

Y targed i'w weithredu ar gyfer ELWa a'i bartneriaid allweddol yn y sector dysgu a sgiliau yw bwydo canlyniadau'r gwaith ymchwil yma i'w cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer datblygu a hyrwyddo cyflenwad y ddarpariaeth iaith Gymraeg.

## 32 Adnoddau

Dim ond y dysgwyr WBL oedd wedi'u seilio mewn coleg neu sefydliad darparu a roddodd sgôr ar gyfer yr adnoddau. Nhw yw'r lleiaf positif o unrhyw grŵp o ddysgwyr am yr adnoddau.

### Y targedau ar gyfer gweithredu

- Y ffreutur/caffi
- Y cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer cymdeithasu gyda dysgwyr eraill
- Adnoddau gofal plant
- Gwasanaethau cefnogi eraill e.e. cyngor gan gynghorydd am gefnogaeth ariannol neu gefnogaeth gyda thai
- Offer/adnoddau chwaraeon

Canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwyr yng Nghymru 2003

# ADDYSG BARHAUS OEDLOLION WEDI'I HACHREDU

'MAE BRON I WYTH YMHOB DEG YN DWEUD EU BOD YN EITHRIADOL FODLON NEU'N FODLON IAWN GYDA'U PROFIAD DYSGU CYFFREDINOL'







## 33 Addysg Barhaus Oedolion (ACE) wedi'i hachredu

Mae dysgwyr ACE yn mynegi'r lefel uchaf o foddhad ymysg y grwpiau dysgwyr i gyd. Mae bron i wyth ymhob deg (78%) yn dweud eu bod yn eithriadol fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad dysgu cyffredinol. Yn gyffredinol, mae lefel y boddhad yn gyson ar draws y bandiau oedran, ond mae merched yn fwy tebygol o fod yn fodlon na dynion.

**34** Er mai ffactorau dysgu a rheolaeth yw'r elfennau pwysicaf am ddylanwadu ar foddhad (yn debyg i'r mathau eraill o ddarpariaeth), mae adnoddau cymdeithasol a dysgu yn chwarae rhan gryfach yn y grŵp yma nag ydynt yn y grwpiau dysgwyr eraill.

### Tabl 3: Dylanwad cymharol y gwanhanol elfennau o'r profiad dysgu ar foddhad y dysgwr

| | % |
|---|---|
| Dysgu | 36 |
| Rheolaeth | 34 |
| Adnoddau Gofal Plant/Cynghori | 6 |
| Gwneud y Dewis Cywir | 3 |
| Adnoddau Cymdeithasol | 10 |
| Adnoddau Dysgu | 11 |


Nodwch: Nid ydym yn dangos yr atebion 'Nid wyf yn gwybod' a gawsom

## 35 Boddhad gyda dysgu

Rhoddodd y dysgwyr ACE sgôr eithriadol o uchel am ansawdd y dysgu: mae'r gyfran a roddodd y sgorau uchaf o 9 neu 10 allan o 10 o leiaf 10% yn uwch yn y grŵp yma na'r mathau eraill o ddarpariaeth. Y grwpiau a roddodd y sgorau uchaf yw'r merched hŷn (55+), y bobl a adawodd yr ysgol yn fuan, ac nad ydynt yn gweithio, a'r rheini sydd ag anabledd neu anawsterau dysgu. Rhoddwyd y sgorau isaf gan ddynion iau (dan 55) ond roedd y sgorau gan y grŵp yma hyd yn oed yn bositif iawn.

**36** Mae'r grid gweithredu isod yn dangos bod y mannau o wendid perthynol yr un fath, yn fras, â'r rheini ar gyfer FE ac WBL ond, o ystyried y ffaith nad oes unrhyw sgôr cymedrig am berfformiad yn is na 8.2 allan o 10, byddai'n anghywir i ni ddweud bod angen gweithredu i adfer y rhain. Efallai ei bod hi'n bwysig i ni dynnu eich sylw at gryfder y math yma o ddarpariaeth fel y gwelwch yn y cwadrant uchaf ar yr ochr dde. Mae'r ffaith fod dysgwyr yn cael y math yma o ddysgu yn ddiddorol ac yn empathetig.

### Siart 3 Blaenoriaethau Gweithredu – Boddhad gyda Ansawdd Addysgu o fewn (ACE)




Nodyn: Mae'r echelin ar y grid wedi'i adeiladu o amgylch y sgorau a roddwyd. Felly, nid ydynt yn cychwyn ar sero. Nid oes sgorau boddhad cymedrig sy'n is na 7 allan o 10 a dim sgôr cymedrig am bwysigrwydd sy'n is na 5

**Y targedau ar gyfer gweithredu**

- Hyrwyddo cryfderau

## 37 Ffactorau rheolaeth

Derbyniodd bob dangosydd y sgorau uchaf gan oddeutu chwech ymhob deg o ddysgwyr ACE. Unwaith eto, rhoddodd y dynion iau sgôr ychydig yn is i rai ffactorau, yn arbennig y rheini sy'n ymwneud ag amserlennu.

**Y targedau ar gyfer gweithredu**

- Rheoli amserlenni fel eu bod yn addas ar gyfer y dysgwr (iau)

## 38 Gwneud y dewis cywir

Mae'r mwyafrif llethol o'r dysgwyr ACE yn astudio yn y sefydliad darparu oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (79%) ac yn dilyn y cwrs oedd yn ddewis cyntaf ganddynt (92%). Mae'r gyfran sydd wedi cael lle yn y sefydliad oedd yn ddewis cyntaf ganddynt yn newid yn dibynnu ar amseriad y cwrs – mae'r rheini sy'n astudio gyda'r nos ychydig bach yn fwy tebygol na dysgwyr ar gyrsiau yn ystod y dydd o fynd i'r sefydliad darparu sy'n ddewis cyntaf ganddynt (81% o'i gymharu â 76%). Mae dysgwyr gyda'r nos yn fwy tebygol o nodi 'lleoliad cyfleus' fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu arnynt wrth iddynt ddewis darparydd.

# ADDYSG BARHAUS OEDLOLION WEDI'I HACHREDU

'DYSGWYR ACE YWR MWYAF TEBYGOL O DDWEUD EI BOD HI'N WELL GANDDYNT DDYSGU YN Y GYMRAEG'

**39** Mae dysgwyr ACE yn tueddu i ddibynnu ar gyfeillion i gael cyngor – mae 31% yn dweud hyn. Mae'n bosib mai dyma'r rheswm pam fo eu disgwyliadau nhw'n tueddu bod ychydig yn is ynglŷn â'r hyn y bydd y cwrs yn ei gynnwys na'r dysgwyr mewn mathau eraill o ddarpariaeth.

**Y targedau ar gyfer gweithredu**

- Gwneud y dysgwyr yn ymwybodol o unrhyw gyngor arbenigol sydd ar gael

## 40 Dysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg

Dysgwyr ACE ywr mwyaf tebygol o ddweud ei bod hi'n well ganddynt ddysgu yn y Gymraeg (13% o'i gymharu â 6% o ddysgwyr FE ac 8% o ddysgwyr WBL). Roedd y dewis yma'n gryfach ymysg dynion iau na 55oed (23%) a dysgwyr sy'n gwneud cyrsiau gyda'r nos (18%). Y grwpiau yma hefyd sydd fwyaf tebygol o fod wedi cael cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**41** Mae oddeutu dau ymhob deg o ddysgwyr yn derbyn rhywfaint o'u dysgu yn y Gymraeg.

**Y targedau ar gyfer gweithredu**

Y targed i'w weithredu ar gyfer ELWa a'i bartneriaid allweddol yn y sector dysgu a sgiliau yw bwydo canlyniadau'r gwaith ymchwil yma i'w cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer datblygu a hyrwyddo cyflenwad y ddarpariaeth iaith Gymraeg.

## 42 Adnoddau

Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr ACE yn methu rhoi sgôr am yr adnoddau am nad ydynt wedi defnyddio adnoddau neu am nad yw'r adnoddau ar gael iddynt. Pan fyddent yn rhoi sgôr mae mwy na'u hanner yn rhoi'r sgôr uchaf o 9 neu 10 allan o ddeg am y mwyafrif o'r adnoddau. Fodd bynnag, ym maes darpariad yr adnoddau yr oedd yr unig ffactorau a gafodd sgôr perfformiad cymedrig is nag 8 allan o 10. Mae'r adnoddau perthnasol wedi'u rhestru isod dan y teitl 'Y targedau ar gyfer gweithredu.'

**Y targedau ar gyfer gweithredu**

- Y ffreutur/caffi
- Adnoddau ar gyfer pobl gydag anableddau
- Y llyfrgell a'r ganolfan ddysgu
- Adnoddau/offer arbenigol eraill sy'n berthnasol i'r cwrs

**Mae'r adroddiad hwn yn elfen o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ELWa. Bydd adroddiadau pellach o'r Strategaeth yn cynnwys:**

- Arolwg Chweched Dosbarth Ysgolion - archwiliad o farn disgyblion chweched dosbarth a'u bodlonrwydd gyda'u profiadau dysgu.
- Astudiaethau Enghreifftiol o Gyflogwyr - dadansoddiad o farn ac agweddau cyflogwyr at ddysgu yn y gweithle.
- Panel Unigolion - Ymchwiliad i mewn i agweddau at ddysgu. Defnyddir y canlyniadau i gynhyrchu segmentiad o unigolion ar draws Cymru.
- Arolwg ar Ddysgwyr sy'n gadael rhaglenni Dysgu yn y Gweithle (Peilot) - Archwiliad o farn Dysgwyr yn y Gweithle sydd wedi gadael neu gyflawni rhaglen 'Dysgu yn y Gweithle' o fewn y 3-6 mis diwethaf.